

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthyh sut i bleidleisio yng Nghymru a Lloegr. Gallwch gael gwybodaeth am sut i bleidleisio yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gan y Comisiwn Etholiadol.



Paratowyd ar gyfer y Comisiwn Etholiadol gan COI
Hydref 2006
Cod y cynnyrch EC4W

Hawlfraint (h) Y Comisiwn Etholiadol 2006


ISBN 1-84695-571-8 / 978-1-84695-571-6

Pleidleisio

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthyh sut i bleidleisio
a pham ei bod yn bwysig i bleidleisio

Pleidleisio

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthy ch sut i bleidleisio a pham ei bod yn bwysig i bleidleisio.




Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthy ch sut i bleidleisio yng Nghymru a Lloegr. Gallwch gael gwybodaeth am sut i bleidleisio yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gan y Comisiwn Etholiadol.

Cynnwys

Beth yw pleidleisio?	2
Pwy all bleidleisio?	3
Pam y dylwn bleidleisio?	4
Sut y gallaf sicrhau y gallaf bleidleisio?	5
Sut y gallaf bleidleisio?	7
Pleidlais bost	11
Pleidlais drwy ddirprwy	12
Beth sy'n digwydd nesaf?	13
Rhagor o wybodaeth	17

Beth yw pleidleisio?

Drwy bleidleisio, cewch gyfle i helpu i ddewis y bobl sy'n rhedeg y wlad, Ewrop a'ch ardal leol.



Yr enw ar y digwyddiad pan fyddwch yn pleidleisio yw **etholiad**.

Mae pob pleidlais yn gyfartal – mae eich pleidlais chi yr un mor bwysig â phleidlais rhywun arall.

Nid yw'n costio dim i bleidleisio.

Pwy all bleidleisio?

Gall bron **pob** dyn a menyw dros 18 oed bleidleisio.



Pam y dylwn bleidleisio?

Drwy bleidleisio, rydych yn helpu i ddewis y bobl sy'n rhedeg y wlad, Ewrop a'ch ardal leol. Mae'r bobl hyn yn penderfynu ar bethau sy'n effeithio ar bawb, fel sut y caiff ysgolion, ysbytai a bysiau eu rhedeg.

Felly mae'n bwysig y caiff pawb gyfle i benderfynu pwy gaiff ei ethol.




Sut y gallaf sicrhau y gallaf bleidleisio?

Mae'n hawdd iawn pleidleisio.

Sicrhewch fod eich enw ar y **Gofrestr Etholwyr** ar gyfer eich ardal. Mae'r gofrestr yn rhestr o bawb a all bleidleisio.

Gallwch ffonio eich awdurdod lleol i sicrhau eich bod ar y rhestr. Mae'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan eich awdurdod lleol.



Bydd yr awdurdod lleol yn anfon ffurflen i bob cartref bob hydref i gadarnhau pwy ddylai fod ar y rhestr. Mae'n rhaid i chi neu rywun arall yn eich cartref lenwi'r ffurflen a'i hanfon yn ôl i'r awdurdod lleol.


Ond gallwch roi eich manylion i'r awdurdod ar unrhyw adeg arall hefyd. Ffoniwch eich awdurdod lleol i weld sut i roi eich manylion.

Bydd yr awdurdod yn anfon cerdyn atoch cyn etholiad. Enw'r cerdyn hwn yw **cerdyn pleidleisio**. Mae'r cerdyn yn dweud wrthy ch ble a phryd i bleidleisio.



Sut y gallaf bleidleisio?

Ar ddiwrnod yr etholiad, rydych yn mynd i'r **orsaf bleidleisio**. Fel arfer, bydd yr orsaf bleidleisio yn ysgol neu neuadd leol yn agos at eich cartref.



Rhowch eich **enw** a'ch **cyfeiriad** i'r bobl yn yr orsaf bleidleisio. Gallwch fynd â'ch **cerdyn pleidleisio** gyda chi i ddangos pwy ydych.



Ewch i **fwth pleidleisio** a rhowch **X** ar bwys enw'r person rydych am bleidleisio drosto/droستی.



Bydd y swyddogion yn yr orsaf bleidleisio yn rhoi rhestr o'r bobl y gallwch bleidleisio drostynt i chi. Enw'r rhestr hon yw **papur pleidleisio**.



Plygwch y papur pleidleisio a'i roi yn y **blwch pleidleisio**.



Os nad ydych yn gwybod beth i'w wneud, gallwch ofyn i'r bobl yn yr **orsaf bleidleisio** eich helpu.



Pleidlais bost

Os na allwch fynd i'r orsaf bleidleisio, gallwch ofyn i'ch awdurdod lleol am **bleidlais bost**.

Caiff eich **papur pleidleisio** ei anfon atoch gartref. Gallwch lenwi'r papur pleidleisio a'i ddychwelyd yn y post.



Os ydych am gael pleidlais bost, ffoniwch eich awdurdod lleol.

Pleidlais drwy ddirprwy

Weithiau, gallwch adael i rywun arall bleidleisio ar eich rhan. Rydym yn galw hyn yn **bleidlais drwy ddirprwy**.



Dim ond os na allwch fynd i'r orsaf bleidleisio ac os nad ydych wedi gofyn am bleidlais bost y gallwch gael pleidlais drwy ddirprwy.

Mae'n rhaid i'r person rydych yn gofyn iddo/iddi bleidleisio ar eich rhan bleidleisio dros y person rydych wedi'i ddewis.



Os ydych am gael pleidlais drwy ddirprwy, ffoniwch eich awdurdod lleol. Bydd yr awdurdod yn anfon ffurflen i chi ei llenwi.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan fydd y pleidleisio ar ben, caiff y pleidleisiau eu cyfrif. Yr enillydd yw'r person sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau.



Bydd y bobl sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn penderfynu sut i redeg y wlad, Ewrop neu eich ardal leol.



Gallwch ddweud eich barn wrthynt neu'r hyn yr hoffech iddynt ei wneud. Gallwch wneud hyn drwy siarad â hwy.



Neu gallwch anfon neges e-bost atynt neu ysgrifennu atynt.




Neu efallai y gallech fynd i gyfarfodydd cyhoeddus i siarad â hwy.



Os credwch eu bod wedi gwneud gwaith da, efallai yr hoffech bleidleisio drostynt eto.

Os **na** chredwch eu bod wedi gwneud gwaith da, efallai yr hoffech bleidleisio dros rywun arall y tro nesaf!



Rhagor o wybodaeth

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am sut i bleidleisio.

Am ragor o wybodaeth, gallwch ofyn i'ch swyddfa gofrestru etholiadol leol.

Mae'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan eich awdurdod lleol.

Neu gallwch ddod o hyd i'r rhif ffôn ar y wefan yn www.fymhleidlaisi.co.uk

Gallwch gael rhagor o gopiau o'r llyfryn hwn gan y Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: **0870 241 6479**

E-bost: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Gwefan: www.fymhleidlaisi.co.uk

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dyfynnu cod y cynnyrch EC4W.

